



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithio'n ddiogel ar Gludiant Ysgol **Canllaw ar gyfer Ysgolion, Rhieni a Dysgwyr**



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



Canllawiau ar gyfer Ysgolion, Rhieni a Dysgwyr

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn darparu cludiant ar gyfer tua 12,500 o ddysgwyr. Mae dros 260 o gontractau prif ffrwd a 300 o gontractau ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cludo dysgwyr i ysgolion a cholegau ar hyd a lled Rhondda Cynon Taf – mae'n debyg mai dyma wasanaeth cludiant ysgol mwyaf Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli gan y garfan Cludiant Ysgol, sy'n rhan o Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor.

Mae'r llyfryn yma wedi cael ei baratoi er mwyn rhoi gwybod i bawb ynglŷn â'u hymrwymadau ac i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gallu darparu gwasanaeth cludiant sy'n ddiogel, yn effeithlon ac yn ddibynadwy.

Mae eisiau i'r gyrwyr a'r cynorthwyyr teithio ddeall anghenion y dysgwyr maen nhw'n eu cludo i'r ysgol a magu perthynas dda gyda nhw. Mae hefyd eisiau iddyn nhw fod yn gyswllt rhwng y rhieni/cynhalwyr (gofalwyr), y cwmnïau bysiau a'r ysgolion perthnasol.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gydymffurfio â Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac i wneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â'i bolisiau a'i drefniadau ar gyfer cludo dysgwyr.

Mae'r Mesur wedi gwella'r gwasanaeth i'r dysgwyr ac mae Côt Ymddygiad wrth Deithio wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r Côt Ymddygiad wrth Deithio yn ceisio gwneud taith y dysgwyr yn fwy diogel ac mae'n gosod safonau ymddygiad mae eisiau i'r dysgwyr eu cynnal wrth iddyn nhw deithio yn ôl ac ymlaen o'r ysgol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y dysgwyr yn teithio'n ddiogel ar gludiant ysgol, mae eisiau i'r ysgolion, y rhieni, y dysgwyr, y cwmnïau bysiau a'r garfan Cludiant Ysgol gydweithio. Mae'r canllawiau yma yn amlinellu'r berthynas yma.



Ymrwymiad y Cyngor

- Mae'r Cyngor yn ceisio darparu gwasanaeth sy'n cludo'r dysgwyr yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn rhwydd.
- Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'i gludiant ysgol ar ei wefan – www.rhondda-cynon-taf.gov.uk – ac yn ystod oriau'r swyddfa, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y canolfannau ibobun.
- Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ar gyfer dysgwyr prif ffrwd yn ôl ac ymlaen o'u safle bws agosaf. Mae dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig yn cael eu cludo o'u cartref i'r ysgol, ac yn ôl eto.
- Wrth gynllunio llwybrau'r cludiant ysgol, mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r effaith mae teithiau hir yn ei chael ar y dysgwyr. Mae hefyd eisiau ystyried hyn ochr yn ochr â'r gofyniad i reoli adnoddau cyhoeddus cyfyngedig. Bydd hyn, felly, yn golygu llwybrau hirach er mwyn cludo cynifer o deithwyr ag sy'n bosibl ar bob cerbyd.
- Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o'r teithiau yn cymryd hyd at 45 munud ar gyfer yr ysgolion cynradd a hyd at 60 munud ar gyfer yr ysgolion uwchradd – fydd dim un o'r teithiau yn cymryd mwy na 75 munud.

- Mae disgwyl i'r holl yrwyr a'r cynorthwyrwr teithio sy'n cael eu cyflogi i weithio ar gcontractau'r ysgolion ar ran y Cyngor gael gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Ar ôl i'r Cyngor adolygu gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, ac yn fodlon â'r cynnwys, bydd y gyrwyr a'r cynorthwyrwr teithio yn derbyn llythyr o ganiatâd i weithio ar ran y Cyngor. Bydd bathodynnau adnabod yn cael eu rhoi i bawb sy'n cael caniatâd i weithio.
- Os bydd gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu gwrthod, bydd llythyron yn cael eu hanfon at y gyrwyr, y cynorthwyrwr teithio a'r cwmnïau bysiau a fydd yn nodi nad oes modd eu defnyddio i ddarparu cludiant ysgol. Mae disgwyl i'r cwmnïau bysiau gadarnhau eu bod nhw wedi derbyn y llythyron ac na fyddan nhw'n defnyddio'r gyrwyr neu'r cynorthwyrwr teithio dan sylw.
- Bydd y Cyngor yn diddymu unrhyw gcontract os bydd y gyrwyr neu'r cynorthwyrwr teithio heb gael gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol neu heb gael caniatâd gan y garfan Cludiant Ysgol i weithio ar gludiant ysgol ar ran y Cyngor.
- Bydd diogelwch y cludiant ysgol a'i ansawdd yn cael eu monitro'n rheolaidd.
- Mae'r Cyngor yn ceisio peidio â newid cwmnïau bysiau, gyrwyr na chynorthwyrwr teithio. Er hynny, mae natur y ddarpariaeth yn golygu bod rhai newidiadau'n anochel.
- Bydd y Cyngor yn cydweithio â phawb sy'n berthnasol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion o gamymddwyn sy'n dod i'r amlwg ar gludiant ysgol. Mae eisiau rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol ynglŷn â phob achos. Mae dolen 'Rhoi adroddiad' ar gael ar wefan y Cyngor – www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion
- Bydd y garfan Cludiant Ysgol yn cadw cofnod o bob achos sy'n dod i'r amlwg ac yn cynnal ymchwiliad ar gyfer pob un o'r rhain drwy gydweithio â'r ysgol a phawb arall sy'n berthnasol, ac yn cosbi ymhellach os yw'n briodol.



Ysgolion

Mae'r canllawiau yma wedi cael eu paratoi er mwyn bod o gymorth i'r ysgolion wrth iddyn nhw gyflawni eu cyfrifoldebau o ran gwneud yn siŵr bod cludiant ysgol o safon yn cael ei ddarparu.

Mae eisiau i'r ysgolion wneud y canlynol:-

- Rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol os oes eisiau cludiant ysgol ar ragor o ddysgwyr sydd heb eu cynnwys ar gronfa ddata SIMS. Mae eisiau i'r dysgwyr gael caniatâd gan y garfan Cludiant Ysgol cyn iddyn nhw deithio.
- Bod o gymorth i'r cwmnïau bysiau yn eu gwaith o gludo dim ond y dysgwyr hynny sy'n gymwys i deithio yn eu cerbydau.
- Ymgorffori materion cludiant ysgol a'r daith i'r ysgol yng nghwricwlwm yr ysgol – mewn gwasanaethau ac yn yr ystafell ddosbarth.
- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Côt Teithio – www.codteithio.org – gan wneud yn siŵr ei fod e'n cael ei weithredu ac yn cael ei gynnwys yn mholisiâu ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol.
- Gwneud yn siŵr bod y dysgwyr yn deall y rheolau ymddygiad a bod eisiau iddyn nhw deithio'n ddiogel ar gludiant ysgol. Mae eisiau rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol ynglŷn ag achosion o gamymddwyn a chynnal ymchwiliadau ar y cyd.
- Bod o gymorth o ran dod o hyd i'r dysgwyr hynny sy'n cyfrannu at achosion o gamymddwyn a chysylltu â'r garfan Cludiant Ysgol er mwyn pennu'r camau priodol mae eisiau eu cymryd.
- Gwneud yn siŵr bod aelod o staff ar gael er mwyn goruchwyllo'r dysgwyr wrth iddyn nhw gyrraedd neu adael ar gludiant ysgol.
- Yn yr ysgolion cynradd, mae eisiau goruchwyllo'r dysgwyr wrth iddyn nhw gerdded yn ôl ac ymlaen rhwng yr ysgol a'r cerbydau.



- Cydweithio â'r garfan Cludiant Ysgol a'r cwmnïau bysiau er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ardal o amgylch mynedfa'r ysgol yn ddiogel, a gwneud yn siŵr nad yw ceir yn rhwystro'r cludiant ysgol.
- Cydweithio â'r rhieni a'r dysgwyr er mwyn eu hannog nhw i deithio i'r ysgol ar gludiant ysgol, bysiau lleol, ar droed neu ar feic yn hytrach na theithio mewn ceir.
- Rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol cyn gynted ag sy'n bosibl ynglŷn ag unrhyw newidiadau i oriau'r ysgol er mwyn ceisio trefnu cludiant i gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig.
- Cydweithio â'r garfan Cludiant Ysgol er mwyn gosod safonau a'u cynnal nhw, gan roi gwybod am unrhyw bryderon neu achosion. Byddai adroddiad ysgrifenedig prydlon o gymorth wrth ddatrys unrhyw broblemau yn gyflym ac mae'n bosibl y byddai'r adroddiad yn cynnig sail ar gyfer datblygu'r gwasanaeth.

- Os bydd unrhyw gerbyd yn methu â chyrraedd yr ysgol, rhwch wybod i'r garfan Cludiant Ysgol ar unwaith fel y bydd hi'n bosibl i'r mater gael ei ymchwilio a gwneud trefniadau eraill os oes angen.
Peidiwch â chysylltu â'r cwmnïau bysiau. Os bydd y broblem yn codi pan fydd hi'n amser mynd adref, cadwch y dysgwyr gyda'i gilydd hyd nes y bydd cerbyd arall yn cyrraedd.
- Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, mae eisiau rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol, yn ysgrifenedig, ynglŷn â diwrnodau HMS arfaethedig a'r diwrnodau y bydd yr ysgol ar gau – neu o leiaf 10 o ddiwrnodau ysgol ymlaen llaw. Bydd y garfan Cludiant Ysgol yn rhoi gwybod i'r cwmnïau bysiau ymlaen llaw er mwyn osgoi unrhyw wariant dianghenraid. Bydd peidio â rhoi digon o rybudd yn golygu gwariant ychwanegol, a bydd disgwyl i'r ysgol ei ad-dalu.




Mae'r canllawiau yma wedi cael eu paratoi er mwyn bod o gymorth i rieni wrth iddyn nhw wneud yn siŵr bod eu plant eu hunain a phlant eraill yn ddiogel wrth deithio ar gludiant ysgol.

Mae eisiau i rieni wneud y canlynol:-

- Rhoi gwybod i'r ysgol os ydych chi'n symud cartref neu roi gwybod ynglŷn ag unrhyw amgylchiadau eraill a fyddai'n effeithio ar drefniadau teithio. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r garfan Cludiant Ysgol ynglŷn â'r newidiadau er mwyn gwirio bod eich plant yn gymwys i deithio ar gludiant ysgol am ddim a gwneud trefniadau eraill os oes angen.
- Darparu rhif cyswllt i'w ffonio os bydd argyfwng, fel eich bod chi'n cael gwybod am unrhyw newidiadau o ran cludiant ysgol.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plant ddim yn gadael y tŷ heb basiau bws sy'n ddilys. Mae'r Cyngor, ynghyd â'r ysgolion uwchradd a'r cwmnïau bysiau, yn gweithredu polisi DIM PAS, DIM TEITHIO. Bydd unrhyw ddisgyblion sy'n ceisio teithio heb bâs dilys yn cael eu hatal rhag teithio a bydd eisiau iddyn nhw wneud eu trefniadau teithio eu hunain. Fydd dim eithriad i'r polisi yma. Os ydy'r pàs ar goll, mae modd prynu un arall. Mae'r prisiau cyfredol ar wefan Cludiant Ysgolion y Cyngor - www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion Mae modd ichi dalu dros y ffôn ar 01443 425001 neu yn un o ganolfannau ibobun y Cyngor. Os nad ydych chi'n ceisio prynu pàs newydd, mae'n bosibl y bydd yr hawl i deithio yn cael ei ddileu.
- Yn y bore, mae eisiau i'ch plant adael yn brydlon fel bod digon o amser ganddyn nhw i gyrraedd y safle bws heb ruthro, yn enwedig os oes eisiau iddyn nhw groesi ffyrdd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plant yn barod i gael eu casglu o'u cartref neu'r safle bws o leiaf 10 munud cyn yr amser sydd wedi'i nodi. Mae amserlenni ar gyfer llwybrau'r bysiau i'r ysgolion prif ffrwd i'w gweld ar wefan y Cyngor www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion Mae dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig fel arfer yn cael eu casglu o'u cartrefi, ac mae'n bosibl trefnu amseroedd yn fras gyda'r gyrrwr.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plant yn cael eu goruchwyllo ac, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ysgolion cynradd, bod oedolyn cyfrifol yn mynd â'ch plant yn ôl ac ymlaen o'r mannau casglu.
- Mae'r gyrrwyr a'r cynorthwywyr teithio ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig wedi cael cyfarwyddyd i beidio ag aros yn hirach na phum munud ar ôl yr amser sydd wedi'i nodi. Byddai unrhyw oedi yn gallu cael effaith sylweddol ar ddisgyblion eraill sy'n teithio yn yr un cerbyd. Er lles y disgyblion eraill, gwnewch yn siŵr bod eich plant yn barod i adael ar yr amser sydd wedi'i nodi. Bydd y cynorthwywyr teithio yn mynd â'ch plant o'r tu allan i'ch cartref i'r cerbyd.
- Mae'r mannau casglu'n cael eu dewis er mwyn cydbwysu'r angen i gasglu'r plant mor agos ag sy'n bosibl i'w cartrefi a'r angen i gyfyngu nifer y mannau casglu fel bod hyd y teithiau yn rhesymol.

- Os bydd eich plant yn colli'r bws, am unrhyw reswm, eich cyfrifoldeb chi fydd gwneud yn siŵr eu bod nhw'n bresennol yn yr ysgol. Fydd dim cludiant arall yn cael ei ddarparu.
- Os ydy'ch plant yn cael eu cludo i'r ysgol mewn tacsï, neu'n cael eu casglu o'u cartref, rhwchch wybod i'r cwmni cyn gynted ag sy'n bosibl os byddan nhw'n dost neu'n methu â mynd i'r ysgol am unrhyw reswm.
- Yn y prynhawn, os oes eisiau i'ch plant groesi'r ffordd ar ôl dod oddi ar y bws, mae eisiau iddyn nhw aros i'r bws fynd cyn mynd ati i groesi'r ffordd. Byddai hyn yn eu galluogi nhw i weld y traffig yn glir a galluogi'r gyrwyr i'w gweld nhw. Os ydych chi'n casglu eich plant o'r safle bws, mae eisiau i chi aros wrth ymyl y safle bws yn hytrach nag ar ochr arall y ffordd. O ran dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig, bydd y cynorthwyyr teithio yn mynd â'ch plant o'r cerbyd i'r tu allan i'ch cartref.
- O ran dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig, mae disgwyl i chi neu oedolyn cyfrifol arall fod yn bresennol pan maen nhw'n cyrraedd gartref.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plant yn deall bod eisiau iddyn nhw wisgo gwregys (os oes un ar gael) wrth deithio ar gludiant ysgol.
- Anogwch eich plant i ymddwyn yn dda wrth deithio ar gludiant ysgol a byddwch o gymorth i'r cwmnïau bysiau, y gyrwyr, y cynorthwyyr teithio, y garfan Cludiant Ysgol a'r ysgol drwy wneud yn siŵr bod eich plant yn cydymffurfio â'r Côt Ymddygiad wrth Deithio – www.codteithio.org
- Gwnewch yn siŵr bod eich plant yn gwybod bod eisiau iddyn nhw ymddwyn yn dda wrth deithio ar gludiant ysgol. Os byddan nhw'n camymddwyn yn y cerbyd, mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu hatal rhag teithio ar gludiant ysgol, yn unol â'r Côt Ymddygiad wrth Deithio. Byddech chi wedyn yn gyfrifol am y gost o gludo'ch plant i'r ysgol bob dydd.
- Rhwchch wybod i'r garfan Cludiant Ysgol ynglŷn ag unrhyw bryderon sydd gennych chi o ran y cludiant sydd wedi'i ddarparu ar gyfer eich plant. Mae dolen 'Rhoi adroddiad' ar gael ar wefan y Cyngor – www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion
- O ran dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig, rhwchch wybod i'r garfan Cludiant Ysgol os ydy'ch plant yn defnyddio darnau arbennig o offer. Bydd disgwyl i chi ddarparu'r offer yma.
- Gwnewch yn siŵr bod meddyginiaeth wedi'i labeli'n glir, yn cael ei gadw'n ddiogel yn eu bag ysgol ac yn cael ei gadw'n ddiogel yn yr ysgol.



GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y CÔD TEITHIO.

Dysgwyr

Mae'r canllawiau yma wedi cael eu paratoi er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaeth cludiant ysgol o safon yn cael ei ddarparu ar gyfer y dysgwyr. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y daith yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn rhwydd, mae disgwyl i'r dysgwyr ymddwyn yn briodol fel nad oes perygl i'w hunain, na'r gyrwyr, na'r cynorthwyyr na defnyddwyr eraill y ffyrdd.

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu gwasanaeth sy'n cludo'r dysgwyr yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn rhwydd.

Eich Cyfrifoldeb

- Cofiwch barchu pobl eraill, gan gynnwys dysgwyr eraill, gyrwyr a'r cyhoedd.
- Cofiwch barchu cerbydau ac eiddo.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch byth â thaflu sbwriel.
- Cofiwch ufuddhau'r gyfraith bob amser.

Eich Diogelwch

- Cofiwch ymddwyn yn dda wrth deithio.
- Cofiwch ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrwyr wrth deithio.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrwyr.
- Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn synhwyrol.
- Teithiwch ar lwybr diogel bob amser.

Eich Hawliau

- Bod yn ddiogel wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a chyda pharch.
- Dweud wrth rywun os oes rhywun neu rywbeth yn creu trafferth i chi.
- Peidio â chael eich bwllo na chael unrhyw un yn pigo arnoch chi.

DYWEDWCH WRTH ATHRO, RHIAENT

NEU YRRWR AM UNRHYW YMDDYGIAD

GWAEI NEU FWLIO RYDYCH CHI'N EI WELD.



Y CÔD TETHIO AR FWS YSGOL



Yn y safle bysus, arhoswch am y bws yn drefnus, gan gadw oddi ar y ffordd.



Cytunwch gyda'ch rhieni beth ddylech ei wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch yn colli'r bws.



Pan fydd y bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio na rhuthro am y drws.



Dangoswch eich pàs bws (os ydych wedi cael un) wrth i chi fynd ar y bws.



Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd nes i chi gyrraedd pen y daith.



Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael.



Peidiwch byth â chreu rhwystr yn yr eil gyda'ch bag neu eiddo arall.



Gwisgwch wregys diogelwch bob amser os oes un ar gael.



Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.



Peidiwch â bwyta nac yfed ar y bws.



Peidiwch byth â thaflu unrhyw beth yn y bws nac oddi ar y bws.



Peidiwch byth â difrodi na fandaleiddio'r bws.



Peidiwch byth ag agor drysau neu allanfydd y bws ac eithrio mewn argyfwng.



Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwy-ydd teithwyr.



Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes i chi gael cyfarwyddiadau i adael. Os yw'n beryglus i aros ar y bws, ewch allan drwy'r allanfa fwyaf diogel.



Peidiwch byth â cheisio mynd ar neu oddi ar y bws nes bydd wedi stopio.



Ewch oddi ar y bws yn drefnus, gan fynd â'ch holl eiddo gyda chi.



Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen nac yn agos at gefn y bws.

Ymddygiad y Dysgwyr



- Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Mae eisiau i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol ac adref. Mae hefyd eisiau i chi ddilyn y Côd Teithio ar Fws Ysgol.
- Dywedwch wrth y gyrrwr, y cynorthwy-ydd teithwyr, yr ysgol neu'r garfan Cludiant Ysgol am unrhyw ymddygiad gwael rydych chi'n ei weld.
- Os bydd y dysgwyr yn ymddwyn yn arbennig o wael, mae'r gyrrwr wedi cael cyfarwyddyd i stopio'r bws, os oes angen, ac aros i'r dysgwyr ymdawelu.
- Bydd pob achos o gamymddwyn yn cael ei ystyried yn unigol. Bydd unrhyw achos o ymddygiad annerbyniol yn cael ei hymchwilio er mwyn ceisio osgoi hynny'n digwydd eto.
- Mae'n bosibl bod systemau Teledu Cylch Cyfyng ar waith ar gludiant ysgol. Mae'r hyn sy'n cael ei ffilmio yn gyfrinachol ond mae'n bosibl ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achosion o gamymddwyn.
- Ar ôl cynnal ymchwiliad, mae'n bosibl y bydd yr hawl i ddefnyddio'r cludiant yn cael ei ddileu am gyfnod penodol, yn ddibynol ar ba mor ddifrifol yw'r achos.
- Os bydd y dysgwyr yn achosi unrhyw ddifrod i'r cerbyd, bydd hi'n bosibl i'r cwmni hawlio'r gost o adfer y difrod.

Pasiau Bws

- Mae pasiau bws yn cael eu rhoi i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n gymwys i deithio ar gludiant ysgol. Mae lliwiau'r pasiau bws yn cyd-fynd â lliwiau'r arwyddion sydd i'w gweld ar flaen y bysiau. Mae'n hawdd i'r dysgwyr weld pa fws mae eisiau iddyn nhw deithio arno. Mae'n hawdd hefyd i'r gyrwyr weld a yw'r dysgwyr yn teithio ar y bws cywir. Os nad yw'r dysgwyr yn dangos pasiau bws sy'n cyd-fynd â lliw'r arwydd, fyddan nhw ddim yn gallu teithio ar y bws hwnnw.
- Mae disgwyl i'r dysgwyr gadw eu pasiau bws o fewn eu cyrraedd bob amser a'u dangos nhw bob tro maen nhw'n camu ymlaen i'w bws. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod y bysiau yn cludo dim ond y dysgwyr hynny sy'n gymwys ac yn osgoi'r broblem o brinder seddi.
- Mae'r Cyngor, ynghyd â'r ysgolion a'r cwmnïau bysiau, yn gweithredu polisi **DIM PÂS, DIM TEITHIO**. Bydd unrhyw ddysgwyr sy'n ceisio teithio heb bâs dilys yn cael eu hatal rhag teithio a bydd eisiau iddyn nhw wneud eu trefniadau teithio eu hunain. **Fydd dim eithriad i'r polisi yma.**
- Os ydy'ch tocyn ar goll neu wedi'i ddifrodi, bydd rhaid i chi brynu tocyn newydd. Mae'r prisiau cyfredol ar wefan Cludiant Ysgolion y Cyngor www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion Mae modd ichi dalu dros y ffôn ar 01443 425001 neu yn un o ganolfannau ibobun y Cyngor.
- Dydyn ni ddim, fel arfer, yn rhoi pasiau bws i ddysgwyr yr ysgolion cynradd. Rydyn ni'n rhoi rhestr o enwau'r dysgwyr cymwys i'r cwmnïau bysiau priodol.

Manylion Cyswilt

Mae'r llyfryn yma yn ceisio rhoi gwybodaeth i'r ysgolion, y rhieni a'r dysgwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth cludiant ysgol mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei ddarparu.

Mae gwefan y Cyngor – www.rctcbc.gov.uk/cludodisgyblion – yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r pwyntiau sydd wedi'u hamlinellu yn y llyfryn yma, ynghyd ag atebion i nifer o gwestiynau cyffredin. Mae'r ddolen 'Rhoi adroddiad' yn ddull o roi gwybod am broblemau.

Am ragor o wybodaeth:

E-bost:

Materion cludiant i ysgolion
cynradd ac uwchradd:
cludodisgyblion@rctcbc.gov.uk
Materion cludiant i ddysgwyr sydd
ag Anghenion Addysg Arbennig:
cludiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Ffôn:

01443 425001

Trwy'r post:

Uned Trafnidiaeth Integredig,
Carfan Cludiant Ysgol,
Cyngor Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Sardis, Sardis Road,
Pontypridd CF37 1DU

Galw heibio:

Canolfannau ibobun y Cyngor.
Ar agor Llun–Gwener rhwng
8.30am a 5.00pm

Rock Grounds

High Street, Aberdâr

Tŷ Sardis

Sardis Road, Pontypridd

Tŷ Bronwydd

Bronwydd Avenue, Y Porth

Llyfrgell Treorci

Station Road, Treorci

Llyfrgell Aberpennar

Knight St, Aberpennar



GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.
DILYNWCH Y CÔD TEITHIO.